O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 193 (Cy. 24)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Pinfold Lane i Alltami, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed *1 Chwefror 2013*

Yn dod i rym *11 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Chwefror 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Pinfold Lane i Alltami, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:30 o'r gloch ar 11 Chwefror 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A494 yn Sir y Fflint sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin o ganolbwynt y goleuadau traffig wrth ei chyffordd â Pinfold Lane hyd ganolbwynt y goleuadau traffig wrth gyffordd Alltami.